Home Office

# Y Swyddfa Gartref

## Canllawiau Penodol i'r Sector ar y Cynllun Cofrestru Dylanwad Tramor (FIRS): Busnes a Diwydiant

Ebrill 2025

OGL

© Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://www.gov.uk/government/collections/foreign-influence-registration-scheme Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn

FIRS@homeoffice.gov.uk.

# Cynnwys


Ynglŷn â'r Canllawiau hyn 3

Adran 1: Trosolwg o'r gofynion 4

- Haen Dylanwad Gwleidyddol 4
- Haen Uwch 5
- Manylion pellach am ofynion cofrestru 6
- Gofynion pellach 6

Adran 2: Enghreifftiau o drefniadau cofrestradwy ac anghofrestradwy 7

- Haen Dylanwad Gwleidyddol 7
- Haen Uwch 8

Adran 3: Esemptiadau 11

- Cronfeydd cyfoeth sofran a chronfeydd pensiwn cyhoeddus (haen dylanwad gwleidyddol) 11
- Gweithgareddau sy'n rhesymol angenrheidiol ar gyfer gweithrediad cenhadaeth ddiplomyddol, swydd gonsylaidd neu genhadaeth barhaol i sefydliad rhyngwladol sydd wedi'i leoli yn y DU (haen uwch)) 13
- Trefniadau cyrff cyhoeddus y DU (Haen uwch yn unig) 14
- Gwasanaethau gweinyddol a thechnegol y llywodraeth (Haen uwch) 15

Adran 4: Senarios cyffredin sy'n effeithio ar fusnes a diwydiant 17

- Mentrau sy'n eiddo i'r wladwriaeth (y ddwy haen) 18
- Partnerships with state-owned enterprises (both tiers) 19
- Trefniadau ecwiti preifat a chyfalaf menter (haen uwch) 20
- Gweithgareddau lobïo a gynhelir drwy gymdeithasau masnach (haen dylanwad gwleidyddol) 21
- Cymdeithasau masnach a chyrff diwydiant sydd â chwmnïau o wledydd haen uwch yn eu haelodaeth (haen uwch) 22

Adran 5: Y gofrestr gyhoeddus ac eithriadau i gyhoeddi 24

- Gwybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol 24

Adran 6: Ar bwy y mae'r gofynion cofrestru yn disgyn a chyfrifoldebau cyflogeion ac isgontractwyr sy'n cyflawni gweithgareddau 27

# Rhestr termau allweddol

| | |
|---|---|
| **FIRS** | Cynllun Cofrestru Dylanwad Tramor. Y Cynllun a gyflwynwyd trwy Ran 4 o Ddeddf Diogelwch Cenedlaethol 2023. |
| **Trefniant** | Unrhyw fath o gytundeb, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol. Gallai gynnwys contract, memorandwm dealltwriaeth (MOU) neu gytundeb neu drefniant anffurfiol quid pro quo. |
| **Pŵer tramor** | Mae iddo'r ystyr a roddir gan Adran 32 o Ddeddf Diogelwch Gwladol 2023. Ceir rhagor o fanylion yn adran 1. |
| **Gweithgareddau dylanwad gwleidyddol** | Cyfathrebiad, cyfathrebiad cyhoeddus neu ddarpariaeth o arian, nwyddau neu wasanaethau a fwriedir i ddylanwadu ar fater gwleidyddol. |
| **Pŵer tramor penodedig** | Pŵer tramor sydd wedi'i bennu trwy reoliadau o dan haen uwch FIRS. |
| **Gweithgaredd perthnasol** | Math o weithgaredd o fewn cwmpas cofrestru o dan haen uwch FIRS. |
| **Esemptiad** | Amgylchiad lle nad yw gofynion cofrestru yn berthnasol. Mae manylion pellach yn adran 3. |
| **Cofrestrai** | Person y mae'n ofynnol iddo gofrestru o dan FIRS. |
| **Hysbysiad gwybodaeth** | Hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r derbynnydd ddarparu gwybodaeth bellach sy'n ymwneud â threfniadau neu weithgareddau y gellir eu cofrestru o dan FIRS. |

# Ynglŷn â'r Canllawiau hyn

Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau ychwanegol sy'n benodol i'r sector ar y Cynllun Cofrestru Dylanwad Tramor ar gyfer busnesau, gan gynnwys mentrau bach a chanolig (BBaChau), y diwydiant Cysylltiadau Cyhoeddus (PR), y diwydiant gwasanaethau ariannol, y diwydiant rheoli buddsoddiadau a'r diwydiant fferyllol. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ar bartneriaethau â mentrau sy'n eiddo i'r wladwriaeth, mentrau ar y cyd â chwmnïau o wledydd y mae eu llywodraeth wedi'i phennu o dan yr haen uwch, cyrff diwydiant sy'n gweithredu ar ran eu haelodaeth ac esemptiadau perthnasol.

Bwriad y ddogfen yw galluogi dealltwriaeth o sut mae gofynion y cynllun yn berthnasol yng nghyd-destun y sector. Gellir dod o hyd i fanylion pellach am ofynion y cynllun yn fwy cyffredinol yn y canllawiau ar yr haen dylanwad gwleidyddol a'r canllawiau ar yr haen uwch. Cynhyrchwyd canllawiau ar wahân hefyd ar y pwerau tramor a'r endidau a reolir gan bwerau tramor a bennir o dan yr haen uwch.

Mae'r canllawiau hyn yn egluro gofynion allweddol cynllun FIRS, sydd wedi'u cynnwys yn Rhan 4 o Ddeddf Diogelwch Cenedlaethol 2023. Fodd bynnag, mae'n parhau i fod yn gyfrifoldeb y rhai sydd o fewn cwmpas y cynllun i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth yn seiliedig ar eu hamgylchiadau penodol eu hunain.

Mae'r DU yn parhau i fod yn agored i ymgysylltu a chydweithredu tryloyw â phwerau tramor. Mae'r rhai sy'n cofrestru'n llawn ac yn gywir yn cefnogi cydnerthedd y DU a'i sefydliadau yn wyneb bygythiadau gan wladwriaethau. Nid yw cofrestru trefniant neu weithgaredd ynddo'i hun yn golygu ei fod o reidrwydd yn anghyfreithlon nac yn annymunol. Nid yw FIRS yn atal unrhyw weithgaredd rhag digwydd; cyn belled â bod y trefniadau'n dryloyw, gall gweithgareddau cysylltiedig fynd rhagddynt fel arfer.

# Adran 1: Trosolwg o'r gofynion

1. Mae gofynion y cynllun wedi'u rhannu'n ddwy haen:
    - Yr haen dylanwad gwleidyddol, sy'n ei gwneud yn ofynnol cofrestru trefniadau gydag unrhyw bŵer tramor (ac eithrio Gweriniaeth Iwerddon) i gynnal gweithgareddau dylanwad gwleidyddol yn y DU;
    - Yr haen uwch, sy'n ei gwneud yn ofynnol cofrestru trefniadau i gynnal set ehangach o weithgareddau ond dim ond gyda'r pwerau tramor neu endidau a reolir gan bwerau tramor sydd wedi'u pennu mewn rheoliadau.

## Haen Dylanwad Gwleidyddol

2. Mae'n ofynnol i unigolion a sefydliadau gofrestru o dan yr haen dylanwad gwleidyddol os cânt eu cyfarwyddo gan bŵer tramor i gynnal, neu drefnu i eraill gynnal, gweithgareddau dylanwad gwleidyddol yn y DU.

3. Pŵer tramor yw unrhyw un o'r canlynol:
    a) pennaeth sofran neu bennaeth arall Gwladwriaeth dramor,
    b) llywodraeth dramor, neu ran o lywodraeth dramor (er enghraifft, gweinidogaeth neu adran llywodraeth dramor);
    c) asiantaeth neu awdurdod llywodraeth dramor, neu ran o lywodraeth dramor,
    d) awdurdod sy'n gyfrifol am weinyddu materion ardal o fewn gwlad neu diriogaeth dramor (er enghraifft, awdurdod llywodraeth leol mewn gwlad dramor);
    e) plaid wleidyddol sy'n blaid wleidyddol lywodraethol llywodraeth dramor.

4. Ni ystyrir bod endidau sy'n eiddo i bŵer tramor neu sy'n cael eu rheoli ganddo yn bwerau tramor yn rhinwedd y berchnogaeth neu'r rheolaeth hon. Er enghraifft, ni fyddai mentrau sy'n eiddo i'r wladwriaeth na chronfeydd cyfoeth sofran yn bwerau tramor, ar yr amod nad ydynt yn cyflawni swyddogaethau cyhoeddus i'r wladwriaeth.

5. Dim ond pan fo "cyfarwyddyd" gan bŵer tramor i weithredu y mae gofynion cofrestru yn berthnasol.

6. Mae gweithgareddau dylanwad gwleidyddol yn cynnwys rhai gweithgareddau cyfathrebu, gweithgareddau cyfathrebu cyhoeddus neu ddarparu arian, nwyddau neu wasanaethau, lle bwriedir iddynt ddylanwadu ar unrhyw un o'r canlynol:
    - Etholiad neu refferendwm yn y DU;
    - Penderfyniad Gweinidog neu adran o'r Llywodraeth (gan gynnwys Gweinidog neu adran o'r Llywodraeth yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon);
    - Trafodion plaid wleidyddol gofrestredig yn y DU (megis eu hymrwymiadau maniffesto);
    - Aelod o Dŷ'r Cyffredin, Tŷ'r Arglwyddi, Cynulliad Gogledd Iwerddon, Senedd yr Alban neu Senedd Cymru (wrth weithredu yn rhinwedd eu swydd fel y cyfryw).

7. Gallai gweithgareddau dylanwad gwleidyddol yng nghyd-destun busnes a diwydiant gynnwys:
    - Llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes a Masnach sy'n ceisio dylanwadu ar newidiadau mewn tariffau masnach ar nwyddau penodol;
    - Cyfarfod ag AS, sy'n ceisio eu darbwyllo i bleidleisio yn erbyn sancsiynau llymach ar fusnesau gwlad benodol;
    - Cyhoeddi erthygl sy'n amlinellu mesurau y gallai'r llywodraeth eu mabwysiadu i wneud y DU yn lle mwy deniadol i fuddsoddi ynddi;
    - Ymgyrch cyfryngau cymdeithasol sydd â'r bwriad o ddylanwadu ar benderfyniad Llywodraeth y DU i osod rheoleiddio ar ddiwydiant penodol;
    - E-bost at uwch was sifil sy'n bwriadu dylanwadu ar benderfyniad llywodraeth y DU i gyhoeddi trwydded allforio.

8. Rhaid cofrestru trefniadau o dan yr haen dylanwad gwleidyddol o fewn 28 diwrnod calendr i'r trefniant gael ei wneud. Gall gweithgareddau ddigwydd o fewn y ffenestr 28 diwrnod honno heb gofrestru ymlaen llaw.

9. Y gosb uchaf am fethu â chydymffurfio â gofynion yr haen dylanwad gwleidyddol yw 2 flynedd o garchar.

10. Gellir dod o hyd i fanylion pellach am ofynion yr haen hon yn y canllawiau ar yr haen dylanwad gwleidyddol.

## Haen Uwch

11. Mae'n ofynnol i unigolion a sefydliadau gofrestru o dan yr haen uwch os cânt eu cyfarwyddo gan bŵer tramor penodedig neu endid penodedig a reolir gan bŵer tramor penodedig i gynnal, neu drefnu i eraill gynnal, ystod ehangach o "weithgareddau perthnasol" yn y DU. Mae'n ofynnol hefyd i endidau penodedig a reolir gan bŵer tramor penodedig gofrestru unrhyw "weithgareddau perthnasol" y maent yn eu cyflawni eu hunain yn y DU.

12. Mae canllawiau ar wahân wedi'u cynhyrchu yn nodi'r pwerau tramor a'r endidau a reolir gan bŵer tramor a bennir o dan yr haen uwch. Mae'r canllawiau hyn hefyd yn darparu rhagor o fanylion am y "gweithgareddau perthnasol" y mae angen cofrestru arnynt.

13. Dim ond lle mae "cyfarwyddyd" gan bŵer tramor penodedig, neu endid penodedig a reolir gan bŵer tramor, i weithredu y mae gofynion cofrestru yn berthnasol.

14. Gallai gweithgareddau "perthnasol" yng nghyd-destun busnes a diwydiant gynnwys:
    - Cynnal digwyddiad yn y DU ar gyfarwyddyd pŵer tramor penodedig neu endid penodedig a reolir gan bŵer tramor;
    - Darparu nwyddau a gwasanaethau yn y DU i bŵer tramor penodedig neu endid penodedig a reolir gan bŵer tramor;
    - Anfon gwybodaeth o'r DU i bŵer tramor penodedig neu endid penodedig a reolir gan bŵer tramor.

15. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd angen cofrestru gweithgareddau masnachol neu fusnes a gyflawnir mewn partneriaeth â chwmnïau preifat o wlad benodedig, oherwydd nad yw'r gweithgareddau hyn yn cael eu cyfarwyddo gan y pŵer tramor penodedig.

16. Mae angen cofrestru trefniadau o dan yr haen uwch o fewn 10 diwrnod calendr i'r trefniant gael ei wneud, a chyn cynnal gweithgareddau. Mae'n drosedd cynnal gweithgareddau perthnasol o dan drefniant cofrestradwy heb i'r trefniant gael ei gofrestru yn gyntaf.

17. Y gosb uchaf am fethu â chydymffurfio â gofynion yr haen dylanwad gwleidyddol yw 5 mlynedd o garchar.

18. Gellir dod o hyd i fanylion pellach am ofynion yr haen hon yn y canllawiau ar yr haen uwch.

## Manylion pellach am ofynion cofrestru

19. O dan y ddwy haen, mae cofrestru yn ofynnol gan yr unigolyn neu'r sefydliad sy'n gwneud y trefniant cofrestradwy gyda'r pŵer tramor, pŵer tramor penodedig neu endid penodedig a reolir gan bŵer tramor. Y trefniant y mae'n rhaid ei gofrestru, nid pob gweithgaredd unigol a fydd yn cael ei gynnal. Dylai unigolion neu sefydliadau eraill sy'n ymwneud â chynnal y gweithgareddau perthnasol wirio bod y trefniant wedi'i gofrestru cyn cynnal y gweithgareddau. Gellir dod o hyd i fanylion pellach yn adran 6.

20. Dim ond pan gaiff ei gynnal yn y DU y gellir cofrestru gweithgaredd. O'r herwydd, ni fyddai angen cofrestru unrhyw weithgareddau a gynhelir dramor (fel y gall fod yn wir gyda llawer o weithrediadau busnes tramor a mentrau ar y cyd â chwmnïau tramor). Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddai angen i sefydliad tramor gofrestru os ydynt yn cynnal gweithgareddau yn y DU, neu'n trefnu i weithgareddau gael eu cynnal yn y DU.

21. Mae cofrestru yn broses syml ac rydym yn disgwyl y bydd y rhan fwyaf o gofrestreion yn cydymffurfio â'r gofynion trwy'r gwasanaeth cofrestru ar-lein FIRS pwrpasol.

## Gofynion pellach

22. Lle bo newid sylweddol i drefniant cofrestredig, rhaid diweddaru'r wybodaeth a ddarperir wrth gofrestru o fewn 14 diwrnod calendr, gan ddechrau gyda'r diwrnod y mae'r newid yn dod i rym.

23. Mae'r cynllun hefyd yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi hysbysiadau gwybodaeth i'r rhai sydd wedi cofrestru, neu eraill y credir eu bod yn ymwneud â threfniadau neu weithgareddau cofrestradwy. Rhaid i dderbynwyr hysbysiadau gwybodaeth ymateb gyda'r wybodaeth sy'n ofynnol gan yr hysbysiad erbyn y dyddiad a bennir. Gellir dod o hyd i fanylion pellach yn y canllawiau ar hysbysiadau gwybodaeth.

# Adran 2: Enghreifftiau o drefniadau cofrestradwy ac anghofrestradwy

## Haen Dylanwad Gwleidyddol

**Enghraifft 1 (angen cofrestru):** Mae Adran Fusnes gwlad A, sydd â diwydiant tybaco mawr, yn ymrwymo i gontract gyda chwmni lobïo yn y DU. Fel rhan o'r contract, mae'r cwmni lobïo yn y DU yn cytuno i annog Llywodraeth y DU i wrthdroi penderfyniad diweddar i godi'r oedran cyfreithiol ar gyfer ysmygu. Mae'r cwmni lobïo yn e-bostio Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan amlinellu rhesymau pam ei fod yn ystyried y bydd y polisi'n aneffeithiol.

Mae'n ofynnol i'r **cwmni lobïo yn y DU** gofrestru. Maent mewn trefniant gydag Adran Fusnes gwlad A (**pŵer tramor**) lle mae ganddynt gontract (**cyfarwyddyd**) i wneud cyfathrebiad i Weinidog y Llywodraeth i ddylanwadu ar benderfyniad Llywodraeth y DU (**gweithgaredd dylanwad gwleidyddol**).

**Enghraifft 2 (angen cofrestru):** Mae Gweinyddiaeth Materion Tramor (MFA) gwlad B yn ymwybodol bod Llywodraeth y DU yn ystyried deddfwriaeth sy'n effeithio ar wlad B. Mae'r MFA yn cyfarfod ag entrepreneur proffil uchel yn y DU ac yn gofyn iddynt lobïo seneddwyr i geisio eu darbwyllo i bleidleisio yn erbyn y ddeddfwriaeth. Mae'r MFA yn cynnig cyfleoedd buddsoddi sylweddol i'r entrepreneur yng ngwlad B yn gyfnewid am ei gymorth. Mae'r entrepreneur yn cyfarfod ag aelodau Tŷ'r Arglwyddi i gyflwyno'r achos pam y byddai'r ddeddfwriaeth yn anghymesur.

Felly mae'n ofynnol i'r **entrepreneur** gofrestru. Maent mewn trefniant â Gweinyddiaeth Materion Tramor gwlad B (**pŵer tramor**) lle mae buddiant i'w dderbyn (**cyfarwyddyd**) os ydynt yn gwneud cyfathrebiad i aelodau Tŷ'r Arglwyddi i ddylanwadu ar benderfyniad pleidleisio (**gweithgaredd dylanwad gwleidyddol**).

**Enghraifft 3 (nid oes angen cofrestru) (dim trefniant gyda, na chyfarwyddyd gan, bŵer tramor)**

Mae system wleidyddol a chyfreithiol gwlad C yn rhoi'r hawl i'r Llywodraeth reoli gweithgareddau unrhyw fusnesau preifat o fewn y wlad yn effeithiol. Mae cwmni sydd â'i bencadlys yng ngwlad C, sy'n ceisio buddsoddi yn y DU, yn ysgrifennu at Ysgrifennydd Cartref y DU i nodi'r achos pam y dylid cyflymu ceisiadau fisa cyflogein y cwmni.

**Nid** oes angen i'r cwmni sydd â'i bencadlys yng ngwlad C gofrestru. Er bod gan y pŵer tramor yr hawl i reoli gweithgareddau'r cwmni, nid yw'r pŵer tramor wedi arfer ei reolaeth ac nid yw wedi cyfarwyddo'r gweithgaredd dylanwad gwleidyddol o ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cartref.

**Enghraifft 4 (nid oes angen cofrestru) (dim cyfarwyddyd gan bŵer tramor, a dim gweithgareddau dylanwad gwleidyddol yn cael eu cynnal)**

Mae cwmni fferyllol mewn trefniant gyda Gweinyddiaeth Iechyd gwlad D, lle mae'n rhaid iddynt eu hysbysu am unrhyw brinder meddyginiaethau o fewn y gadwyn gyflenwi. Mae'r cwmni fferyllol yn nodi prinder penodol ac yn adrodd hyn i Weinyddiaeth Iechyd gwlad D ac i Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y DU, o dan Ofynion Adrodd y DHSC ar gyfer Prinder a Rhoi'r Gorau i'w Defnyddio ar gyfer Meddyginiaethau.

**Nid** oes angen i'r cwmni fferyllol gofrestru. Er eu bod mewn trefniant gyda phŵer tramor, nid ydynt yn cael eu cyfarwyddo gan y pŵer tramor hwnnw i gynnal na threfnu gweithgareddau dylanwad gwleidyddol yn y DU. Ar ben hynny, tra bod y cwmni fferyllol yn gwneud cyfathrebiad i adran o Lywodraeth y DU, ni fyddai hyn yn cael ei ystyried yn weithgaredd dylanwad gwleidyddol gan nad yw wedi'i fwriadu i ddylanwadu ar fater gwleidyddol.

**Enghraifft 5 (nid oes angen cofrestru) (dim trefniant na chyfarwyddyd gan bŵer tramor)**

Mae cwmni fferyllol tramor, sy'n gweithredu'n annibynnol ar unrhyw bŵer tramor, yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes a Masnach yn amlinellu problemau gyda rheoliadau'r DU sy'n effeithio ar gyflenwi meddyginiaethau i Ogledd Iwerddon, ac yn gwneud awgrymiadau ymarferol ar sut y gellid diwygio'r rheoliadau.

**Nid** oes angen i'r cwmni gofrestru. Er bod eu gweithgareddau'n gyfystyr â gweithgareddau dylanwad gwleidyddol (oherwydd eu bod yn ceisio dylanwadu ar agweddau ar reoliadau Llywodraeth y DU), nid ydynt yn cael eu cyfarwyddo i gyflawni'r gweithgareddau hyn gan bŵer tramor.

## Haen Uwch

**Enghraifft 6 (angen cofrestru) (cyfarwyddyd gan bŵer tramor penodedig):**

Mae Llywodraeth gwlad E wedi'i phennu o dan yr haen uwch, gyda'r holl weithgareddau'n ffurfio "gweithgareddau perthnasol". Mae llysgenhadaeth gwlad E yn y DU yn llofnodi contract gyda gwesty pum seren i gynnal digwyddiad i hyrwyddo gwlad E i fuddsoddwyr posibl.

Mae'n ofynnol i'r **gwesty pum seren** gofrestru. Maent mewn trefniant gyda llysgenhadaeth gwlad E yn y DU (**pŵer tramor penodedig**) lle maent wedi llofnodi contract (**cyfarwyddyd**) i gynnal digwyddiad yn y DU i hyrwyddo gwlad E i fuddsoddwyr posibl (**gweithgaredd perthnasol**).

**Enghraifft 7 (angen cofrestru) (cyfarwyddyd gan bŵer tramor penodedig):**

Mae brand ceir yn y DU yn ddibynnol iawn ar farchnad gwlad F ar gyfer cynhyrchu a gwerthu ei gerbydau. Mae Llywodraeth gwlad F wedi'i phennu o dan yr haen uwch gyda phob gweithgaredd yn ffurfio "gweithgareddau perthnasol". Mae brand ceir y DU wedi cyhoeddi deunyddiau marchnata yn y DU yn ddiweddar.

Mae cangen y brand ceir yng ngwlad F yn cael ei galw gan Weinyddiaeth Materion Tramor gwlad F ac yn cael ei hannog i newid y deunyddiau marchnata. Mae'r brand ceir yn ddibynnol iawn ar farchnad gwlad F ar gyfer ei fusnes ac mae gwlad F wedi awgrymu y gallai ddioddef colledion sylweddol am fethu â chydymffurfio. Felly mae'n diwygio'r deunyddiau marchnata ar gyfer cyhoeddiadau yn y dyfodol yn y DU.

Felly mae'n ofynnol i'r **brand ceir** gofrestru. Maent mewn trefniant gyda Weinyddiaeth Materion Tramor gwlad F (**pŵer tramor penodedig**) lle gofynnir iddynt – ag ofn colledion sylweddol os nad ydynt yn cydymffurfio (**cyfarwyddyd**) i wneud gwelliant i ddeunyddiau marchnata yn y DU (**gweithgareddau perthnasol**).

**Enghraifft 8 (angen cofrestru) (cyfarwyddyd gan bŵer tramor penodedig):** Mae rheoleiddiwr gofal iechyd yng ngwlad G wedi'i bennu o dan yr haen uwch. Mae ymchwilydd o fewn diwydiant fferyllol y DU yn llofnodi contract gyda'r rheoleiddiwr ac yn cytuno i gynnal prosiect ymchwil i ddefnyddio cynhwysyn penodol mewn meddyginiaethau yn y DU.

Mae'n ofynnol i'r ymchwilydd gofrestru. Maent wedi llofnodi contract (**cyfarwyddyd**) gyda rheoleiddiwr gofal iechyd yng ngwlad G (**pŵer tramor penodedig**) i gynnal prosiect ymchwil yn y DU (**gweithgareddau perthnasol**).

Pe bai corff cyhoeddus, fel y GIG neu'r Awdurdod Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA), yn rhan o'r trefniant yna byddai esemptiad yn berthnasol ac ni fyddai angen cofrestru.

**Enghraifft 9 (angen cofrestru) (cyfarwyddyd gan bŵer tramor penodedig):** Mae Gweinyddiaeth Dwristiaeth gwlad H wedi'i phennu o dan yr haen uwch. Mae asiantaeth hysbysebu a marchnata yn y DU yn llofnodi contract gyda Gweinyddiaeth Dwristiaeth gwlad H i hyrwyddo'r wlad fel cyrchfan i dwristiaid. Mae'r asiantaeth yn cynhyrchu hysbyseb ac yn gwneud trefniadau ar wahân gyda nifer o gwmnïau darlledu a chyfryngau cymdeithasol yn y DU i arddangos yr hysbyseb.

Mae'n ofynnol i'r asiantaeth hysbysebu a marchnata yn y DU gofrestru. Maent mewn contract (**cyfarwyddyd**) gyda Gweinyddiaeth Dwristiaeth gwlad H (**pŵer tramor penodedig**) i gynhyrchu a lledaenu hysbyseb i gynulleidfa yn y DU (gweithgareddau perthnasol).

Dylai'r cwmnïau darlledu a chyfryngau cymdeithasol wirio bod yr asiantaeth wedi cofrestru cyn dangos yr hysbyseb.

**Enghraifft 10a (angen cofrestru) (cyfarwyddyd gan bŵer tramor penodedig):**

Mae Gweinyddiaeth Gwyddoniaeth a Thechnoleg gwlad I wedi'i phennu o dan yr haen uwch, gyda'r holl weithgareddau'n ffurfio "gweithgareddau perthnasol". Mae cyflogeion o'r Weinyddiaeth yn dymuno teithio i'r DU i ddysgu mwy am dechnolegau AI sy'n cael eu datblygu yn y DU. Maent yn gofyn i gorff diwydiant yn niwydiant technoleg y DU noddi eu fisa DU ac yn cynnig cyfleoedd busnes iddynt yng ngwlad I yn gyfnewid. Mae'r corff diwydiant yn ysgrifennu llythyr nawdd iddynt ei gyflwyno fel rhan o'u cais am fisa DU.

Mae'n ofynnol i'r **corff diwydiant** gofrestru. Maent mewn trefniant gyda Gweinyddiaeth Gwyddoniaeth a Thechnoleg gwlad I (**pŵer tramor penodedig**) lle cynigir cyfleoedd busnes iddynt (**cyfarwyddyd**) i ysgrifennu llythyr nawdd ar gyfer fisâu'r DU ar gyfer cyflogeion y Weinyddiaeth (**gweithgaredd perthnasol**).

**Enghraifft 10b (nid oes angen cofrestru) (dim cyfarwyddyd gan bŵer tramor penodedig):**

Mae corff diwydiant y DU yn trefnu cynhadledd yn y DU ar dechnolegau AI sy'n dod i'r amlwg. Maent yn gwahodd cyflogeion y Weinyddiaeth Gwyddoniaeth a Thechnoleg o wlad I, sydd wedi'i phennu o dan yr haen uwch, i fynychu'r gynhadledd a noddi eu fisâu DU.

**Nid** oes angen i'r corff diwydiant gofrestru. Er eu bod yn noddi'r fisâu, nid ydynt yn cael eu cyfarwyddo i wneud hynny gan bŵer neu endid tramor penodol.

# Adran 3: Esemptiadau

24. Mae esemptiadau rhag cofrestru yn berthnasol i:
    - Trefniadau corff coron y DU (y ddwy haen);
    - Pwerau tramor yn gweithredu'n agored (y ddwy haen);
    - Aelodau o'r teulu diplomyddol (y ddwy haen);
    - Gweithgareddau cyfreithiol a gyflawnir gan gyfreithiwr (y ddwy haen);
    - Cyhoeddwyr newyddion cydnabyddedig (haen dylanwad gwleidyddol yn unig);
    - Cronfeydd cyfoeth sofran a chronfeydd pensiwn cyhoeddus sy'n cyflawni gweithgareddau sy'n gysylltiedig â buddsoddi (haen dylanwad gwleidyddol yn unig);
    - Gweithgareddau sy'n rhesymol angenrheidiol i gefnogi cenadaethau diplomyddol (haen uwch yn unig);
    - Trefniadau corff cyhoeddus y DU (haen uwch yn unig);
    - Ysgoloriaethau a darparwyr addysg (haen uwch yn unig);
    - Prosesau gweinyddol y llywodraeth (haen uwch yn unig).

25. Yn ogystal â'r esemptiadau hyn, ni fyddai angen cofrestru unrhyw weithgareddau cyfathrebu cyhoeddus lle mae'n rhesymol glir bod y gweithgaredd wedi'i wneud ar gyfarwyddyd pŵer tramor o dan yr haen dylanwad gwleidyddol, oherwydd ni fyddent yn bodloni'r diffiniad o "weithgaredd dylanwad gwleidyddol". Felly, ni fyddai angen cofrestru unrhyw gyhoeddiad a fwriadwyd i ddylanwadu ar broses wleidyddol o dan yr haen dylanwad gwleidyddol, pe bai'n glir ar y cyhoeddiad ei fod wedi'i gwblhau fel rhan o drefniant gyda phŵer tramor. Gall fod angen cofrestru o hyd o dan yr haen uwch, os caiff ei wneud ar gyfarwyddyd pŵer tramor penodedig neu endid penodedig a reolir gan bŵer tramor.

26. Nodir crynodebau o'r esemptiadau sydd fwyaf tebygol o fod yn berthnasol i sectorau busnes isod. Gellir dod o hyd i fanylion pellach am yr holl esemptiadau yn y canllawiau ar yr haen dylanwad gwleidyddol neu'r canllawiau ar yr haen uwch.

## Cronfeydd cyfoeth sofran a chronfeydd pensiwn cyhoeddus (haen dylanwad gwleidyddol)

27. Nid oes angen i gronfeydd cyfoeth sofran a chronfeydd pensiwn cyhoeddus gofrestru o dan yr haen dylanwad gwleidyddol, ar yr amod bod yr **holl** bethau canlynol yn berthnasol:

    a) Mae ganddynt nodweddion nodweddiadol cronfa gyfoeth sofran neu gronfa bensiwn gyhoeddus, sy'n golygu:
    - Maent yn eiddo i neu dan reolaeth pŵer tramor (naill ai'n uniongyrchol neu drwy ymddiriedolaeth, partneriaeth neu endid tebyg); ac
    - Eu prif fusnes yw gwneud neu reoli buddsoddiadau, gan gynnwys buddsoddiadau tramor; a

- Maent yn derbyn rhywfaint o gyllid ar gyfer eu buddsoddiadau tramor gan eu pŵer tramor cartref; a
- Pwrpas eu buddsoddiadau yw bod o fudd i'w pŵer tramor cartref, neu i alluogi taliadau pensiwn;

28. Mae'r pŵer tramor y maent mewn trefniant ag ef o'u gwlad enedigol;
29. Mae eu gweithgareddau dylanwad gwleidyddol yn gysylltiedig â'u buddsoddiadau yn y DU.

28. Ni fydd yn ofynnol i endidau sy'n dal buddsoddiadau neu rhai cynghori sy'n cynnal gweithgareddau dylanwad gwleidyddol sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau ar gyfer cronfa gyfoeth sofran neu gronfa bensiwn gyhoeddus sydd wedi'i hesemptio gofrestru, a byddant yn gallu parhau â'u gweithgareddau heb gyfyngiad.

29. Nid yw'r esemptiad hwn yn berthnasol i'r haen uwch. O'r herwydd, byddai angen i gronfa gyfoeth sofran neu gronfa bensiwn gyhoeddus gofrestru o hyd os cânt eu cyfarwyddo gan bŵer tramor penodedig, neu endid penodedig a reolir gan bŵer tramor, i gynnal gweithgareddau perthnasol yn y DU.

**Enghraifft 11 (mae esemptiad yn berthnasol):** Mae cronfa bensiwn gyhoeddus yn eiddo i Lywodraeth gwlad J, sy'n ei chyfarwyddo i fuddsoddi mewn llinell reilffordd newydd yn y DU ac i lobïo Llywodraeth y DU i ddarparu cyllid ychwanegol i gefnogi ei buddsoddiadau. Mae'r gronfa bensiwn gyhoeddus yn ysgrifennu at y Canghellor yn nodi sut y byddai ei buddsoddiadau'n cefnogi Twf y DU a pham y dylai Llywodraeth y DU eu cefnogi.

Nid oes angen i'r gronfa bensiwn gyhoeddus gofrestru gan eu bod yn elwa o esemptiad.

**Enghraifft 12 (mae esemptiad yn berthnasol):** Mae cronfa gyfoeth sofran yn eiddo i Lywodraeth gwlad K, sy'n ei chyfarwyddo i fuddsoddi mewn llinell reilffordd newydd yn y DU ac i lobïo Llywodraeth y DU i ddarparu cyllid ychwanegol i gefnogi ei buddsoddiadau. Yna mae endid ymgynghorol sy'n eiddo i'r gronfa gyfoeth sofran yn ysgrifennu at y Canghellor yn nodi sut y byddai ei fuddsoddiadau'n cefnogi Twf y DU a pham y dylai Llywodraeth y DU eu cefnogi. Nid oes angen cofrestru gan fod trefniant y gronfa gyfoeth sofran gyda Llywodraeth gwlad J wedi'i esemptio, ac mae'r endid ymgynghorol yn gweithredu yn unol â threfniant wedi'i esemptio.

**Enghraifft 13 (nid yw'r esemptiad yn berthnasol):** Mae cronfa gyfoeth sofran yn cael ei chyfarwyddo gan Lywodraeth gwlad L i lobïo Seneddwyr y DU i bleidleisio yn erbyn deddfwriaeth arfaethedig i gryfhau rheolaethau allforio'r DU. Nid yw'r esemptiad yn berthnasol gan nad yw'r gweithgareddau dylanwad gwleidyddol sy'n cael eu cynnal yn gysylltiedig â buddsoddiadau'r gronfa gyfoeth sofran yn y DU.

## Gweithgareddau sy'n rhesymol angenrheidiol ar gyfer gweithrediad cenhadaeth ddiplomyddol, swydd gonsylaidd neu genhadaeth barhaol i sefydliad rhyngwladol sydd wedi'i leoli yn y DU (haen uwch))

30. Nid oes angen cofrestru trefniadau os yw'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn rhesymol angenrheidiol i gefnogi gweithrediad cenhadaeth ddiplomyddol, swydd gonsylaidd neu genhadaethau parhaol sefydliadau rhyngwladol sydd wedi'u lleoli yn y DU.

31. Gall contractwyr llysgenadaethau, consyliaethau a phreswylfeydd diplomyddol eraill pwerau tramor penodedig elwa o'r esemptiad hwn os ydynt yn darparu nwyddau neu wasanaethau fel:
    - Gwasanaethau llety (er enghraifft, fflatiau â gwasanaeth ar gyfer diplomyddion);
    - Gwasanaethau glanhau;
    - Gwasanaethau arlwyo;
    - Gwasanaethau adeiladu a chynnal a chadw;
    - Gwasanaethau bancio;
    - Gwasanaethau yswiriant;
    - Gwerthu offer swyddfa;
    - Cyflenwi cyfleustodau (er enghraifft, dŵr, nwy, trydan, ffôn a'r rhyngrwyd);
    - Gwasanaethau trafnidiaeth (er enghraifft, gwasanaethau tacsi);
    - Gwasanaethau post, danfon ac anfon.

32. Dim ond os ydynt yn darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen yn rhesymol i gefnogi cenhadaeth ddiplomyddol, swyddi consylaidd neu genhadaeth barhaol sefydliadau rhyngwladol sydd wedi'u lleoli yn y DU y bydd y rhai sy'n darparu'r gwasanaethau uchod yn elwa o'r esemptiad. Nid yw'r un gwasanaethau a ddarperir i unigolion eraill sy'n rhan o'r pŵer tramor penodedig (er enghraifft, gweision sifil sydd wedi'u lleoli yn y wlad benodedig) yn elwa o'r esemptiad.

33. Nid yw contractwyr a chyflenwyr cenadaethau diplomyddol sy'n darparu nwyddau neu wasanaethau eraill (megis cynnal digwyddiadau a darparu gwasanaethau marchnata) yn elwa o'r esemptiad.

**Enghraifft 14 (mae esemptiad yn berthnasol):** Mae Gweinyddiaeth Dramor gwlad M wedi'i phennu o dan yr haen uwch. Mae llysgenhadaeth sydd wedi'i lleoli yn y DU, sy'n rhan o Weinyddiaeth Dramor gwlad M, yn llofnodi contract gyda chwmni adeiladu yn y DU ar gyfer gwaith adeiladu i'r llysgenhadaeth. Nid oes angen i'r cwmni adeiladu gofrestru, gan fod y trefniant yn ymwneud â darparu gwasanaethau sy'n rhesymol angenrheidiol ar gyfer gweithrediad cenhadaeth ddiplomyddol.

**Enghraifft 15 (nid yw'r esemptiad yn berthnasol):** Mae Gweinyddiaeth Dramor gwlad N wedi'i phennu o dan yr haen uwch. Mae llysgenhadaeth yn y DU, sy'n rhan o Weinyddiaeth Dramor gwlad N, yn llofnodi contract gyda chwmni cysylltiadau cyhoeddus (PR). Fel rhan o'r contract, mae'r cwmni cysylltiadau cyhoeddus yn cytuno i gynnal digwyddiad lle byddai siaradwyr yn ceisio mynd i'r afael â beirniadaeth ddiweddar o orthrwm pobl gwlad N gan y Llywodraeth, gyda'r bwriad o newid y naratif am y mater. Er bod y cwmni cysylltiadau cyhoeddus mewn trefniant gyda chenhadaeth ddiplomyddol, nid yw'r gwasanaethau y mae'n eu darparu yn rhesymol angenrheidiol ar gyfer swyddogaeth y genhadaeth, felly mae angen cofrestru.

## Trefniadau cyrff cyhoeddus y DU (Haen uwch yn unig)

34. Nid oes angen cofrestru trefniadau pan fydd corff cyhoeddus y DU yn rhan o'r trefniant hwnnw. Mae hyn yn cynnwys trefniadau lle mae unrhyw unigolyn sy'n gweithredu ar ran corff cyhoeddus y DU (er enghraifft, cyflogai), yn rhan o'r trefniant. Am ragor o fanylion ynghylch awdurdodau cyhoeddus gweler y canllawiau haen uwch.

35. Er enghraifft, pan fo trefniant yn bodoli rhwng pŵer tramor a busnes yn y DU, ac mae corff cyhoeddus y DU hefyd yn rhan o'r un trefniant hwnnw, bydd yr esemptiad hwn yn berthnasol. **Ni** fydd yr esemptiad yn berthnasol os yw'r busnes yn y DU mewn dau drefniant ar wahân - un gyda phŵer tramor penodedig ac un gyda'r corff cyhoeddus yn y DU. Nid yw cyfranogiad corff cyhoeddus y DU yn y gweithgareddau yn unig yn golygu bod yr esemptiad yn berthnasol.

36. Nid yw'r esemptiad hwn yn berthnasol i drefniadau y mae cyrff cyhoeddus llywodraeth leol ac ysgolion a gynhelir, ysgolion academi a sefydliadau addysg bellach ac uwch yn rhan ohonynt.

37. Dim ond pan fydd corff cyhoeddus y DU yn rhan wirioneddol o'r trefniant gyda'r pŵer tramor penodedig y mae'r esemptiad yn berthnasol (er enghraifft, pe bai'n gytundeb amlochrog sy'n cynnwys corff cyhoeddus y DU a'r pŵer tramor penodedig). Nid yw cyfranogiad corff cyhoeddus y DU yn y gweithgareddau yn unig yn golygu bod yr esemptiad yn berthnasol.

38. Yn yr un modd, lle mae corff cyhoeddus y DU yn rhan o drefniant yn unig, byddai angen cofrestru'r rhan arall o'r trefniant o hyd. Er enghraifft, lle mae gan drefniant gyda phŵer tramor elfennau ffurfiol ac anffurfiol, a bod corff cyhoeddus y DU yn rhan o'r elfen ffurfiol yn unig, efallai y bydd angen cofrestru elfennau anffurfiol y trefniant o hyd os bodlonir yr holl amodau.

39. Hyd yn oed os yw corff cyhoeddus y DU yn rhan o'r trefniant, bydd angen i berson mewn trefniant gyda phŵer tramor (gan gynnwys pŵer tramor penodedig) gofrestru

gyda FIRS lle mae'r trefniant hwn yn cynnwys eu cyfarwyddo i gynnal gweithgaredd dylanwad gwleidyddol yn y DU.

**Enghraifft 16 (mae esemptiad yn berthnasol):** Mae corff cyhoeddus yn y DU ac asiantaeth benodedig pŵer tramor yn ariannu menter fusnes ar y cyd rhwng busnes yn y DU a busnes tramor ac mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn bodoli rhwng y pedwar parti hyn. Mae llawer o'r gweithgarwch yn cynnwys gweithgaredd busnes yn y DU, yn ogystal â chyfarfodydd a gynhelir yn y DU rhwng busnesau'r DU a busnesau tramor. Gan fod corff cyhoeddus y DU yn rhan o'r trefniant (gan eu bod yn ariannu'r fenter ar y cyd â'r asiantaeth benodedig o'r pŵer tramor), nid oes angen i'r busnes yn y DU a'r busnes tramor gofrestru'r trefniant hwn gyda FIRS.

**Enghraifft 17 (mae'r esemptiad yn berthnasol yn rhannol):** Mae corff iechyd cyhoeddus yn y DU yn rhan o bartneriaeth fyd-eang sy'n gweithio ar dreial clinigol o frechiad newydd. Mae'r bartneriaeth fyd-eang hon wedi'i hariannu'n rhannol gan bŵer tramor penodedig ac mae'n cynnwys ymchwil glinigol, profi ac adrodd yn cael ei chynnal gan gorff iechyd cyhoeddus y DU ac aelodau eraill o'r bartneriaeth fyd-eang yn y DU. Nid oes angen i gorff iechyd cyhoeddus y DU gofrestru'r trefniant hwn gyda FIRS ac nid oes angen i unrhyw un o aelodau eraill y bartneriaeth iechyd byd-eang wneud hynny chwaith. Os, ar wahân i'r trefniant hwn, y cyfarwyddwyd cwmni ymchwil feddygol sy'n rhan o'r bartneriaeth fyd-eang gan y pŵer tramor penodedig i fynychu ac adrodd yn ôl ar ganfyddiadau cynhadledd feddygol yn y DU nad yw'n gysylltiedig â'r bartneriaeth fyd-eang, byddai'n rhaid i'r cwmni ymchwil feddygol gofrestru hyn (gan nad yw corff cyhoeddus y DU yn rhan o'r trefniant hwnnw).

## Gwasanaethau gweinyddol a thechnegol y llywodraeth (Haen uwch)

40. Nid oes angen i berson gofrestru trefniant lle mae pŵer tramor penodedig yn ei gyfarwyddo i gyflawni gweithgaredd yn y DU sy'n rhesymol angenrheidiol i hwyluso darparu'r gwasanaethau canlynol gan neu ar ran y pŵer tramor penodedig. Y gwasanaethau hyn yw:

    a. nifer o wasanaethau technegol neu weinyddol sy'n gysylltiedig â swyddogaethau consylaidd gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gyhoeddi pasbortau neu ddogfennau teithio i ddinasyddion pŵer tramor penodedig, gwasanaethau notareiddio a chofrestru (gan gynnwys cofrestru genedigaethau, marwolaethau a phriodasau a darparu neu drefnu i gymorth gael ei ddarparu mewn amgylchiadau brys, megis anaf difrifol neu salwch;
    b. gwasanaethau mewnfudo a dinasyddiaeth; ac

c. gwasanaethau gweinyddu treth megis cyngor neu gymorth ar dalu treth sy'n ddyledus i'r pŵer tramor penodedig neu gydymffurfio ag unrhyw ofynion cyfreithiol eraill sy'n ymwneud â threth.

41. Dim ond pan gânt eu cyfarwyddo i gyflawni gweithgaredd sy'n rhesymol angenrheidiol i alluogi darparu gwasanaeth sy'n dod o dan yr esemptiad y mae person wedi'i esemptio rhag cofrestru gyda'r cynllun. Er enghraifft, os cânt eu cyfarwyddo i lenwi ffurflen gais am basbort gan y pŵer tramor penodedig fel rhan o'r broses o wneud cais am basbort neu ei adnewyddu, nid oes angen cofrestru hyn gyda FIRS.

    Fodd bynnag, os cânt eu cyfarwyddo gan y pŵer tramor penodedig i ddarparu enwau a chyfeiriadau cyflogeion cwmni'r unigolyn, wrth wneud cais am basbort, ni fyddai hyn wedi'i esemptio a dylid ei gofrestru gyda FIRS.

**Enghraifft 18 (mae esemptiad yn berthnasol):** Mae gan fusnes iechyd yn y DU weithgaredd masnachol rheolaidd a chysylltiadau â busnes (busnes X) sydd â'i bencadlys yng ngwlad A. Nid yw Busnes X wedi'i bennu'n FIRS, ond mae Gweinyddiaeth Gyllid gwlad A wedi'i phennnu ar yr haen uwch.

Fel rhan o gysylltiadau masnachol parhaus, mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r busnes yn y DU dalu treth i Weinyddiaeth Gyllid gwlad A. Mae'r busnes yn y DU yn cysylltu â Gweinyddiaeth Gyllid gwlad A. Mae'r Weinyddiaeth Gyllid yn cyfarwyddo'r busnes yn y DU i lenwi a chyflwyno ffurflen asesu treth. Mae'r ffurflenni cais yn gofyn am wybodaeth a ystyrir yn rhesymol ac o fewn cwmpas y broses weinyddol. Nid oes angen i'r busnes yn y DU gofrestru'r trefniant hwn gyda FIRS.

**Esemptiad 19 (nid yw'r esemptiad yn berthnasol):** Mae gan fusnes iechyd yn y DU weithgaredd masnachol rheolaidd a chysylltiad â busnes (busnes X) sydd â'i bencadlys yng ngwlad B. Nid yw Busnes X wedi'i bennu ar FIRS, ond mae Gweinyddiaeth Gyllid gwlad B wedi'i phennu o dan yr haen uwch o FIRS.

Fel rhan o gysylltiadau masnachol parhaus, mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r busnes yn y DU dalu treth i Weinyddiaeth Gyllid gwlad B. Mae'r busnes yn y DU yn cysylltu â Gweinyddiaeth Gyllid gwlad B. Mae'r Weinyddiaeth Gyllid yn cyfarwyddo'r busnes yn y DU i lenwi a chyflwyno ffurflen asesu treth. Mae'r ffurflenni cais yn gofyn am wybodaeth fanwl am adran ymchwil a datblygu'r busnes yn y DU. Mae'r Weinyddiaeth Gyllid hefyd yn gofyn i'r busnes yn y DU am wybodaeth ynghylch ymchwil feddygol barhaus, na fydd yn rhan o'r asesiad treth.

Gan fod y ffurflen asesu treth wedi gofyn am wybodaeth sydd y tu allan i gwmpas yr asesiad treth, drwy ofyn am ddata ymchwil feddygol, dylid cofrestru'r gweithgaredd hwn gyda FIRS.

# Adran 4: Senarios cyffredin sy'n effeithio ar fusnes a diwydiant

## Mentrau ar y cyd (y ddwy haen)

42. Nid oes angen cofrestru mentrau ar y cyd os ydynt yn ymwneud yn gyfan gwbl â gweithgareddau a gyflawnir y tu allan i'r DU, hyd yn oed os yw un o'r partïon yn gwmni yn y DU.

43. Gall mentrau ar y cyd sy'n ymwneud â gweithgareddau a gyflawnir yn y DU, neu sy'n cael effaith yn y DU, fod angen cofrestru o dan yr haen uwch os:
    - Mae un o'r partïon yn endid penodedig a reolir gan bŵer tramor.
    - Mae'r fenter ar y cyd wedi'i chyfarwyddo gan bŵer tramor penodedig i gynnal gweithgareddau yn y DU.

44. Efallai y bydd gofyn i fenter ar y cyd gofrestru o dan yr haen dylanwad gwleidyddol hefyd os yw pŵer tramor yn ei chyfarwyddo i gynnal, neu drefnu, gweithgareddau dylanwad gwleidyddol yn y DU.

**Enghraifft 20 (angen cofrestru) (haen uwch)**

Mae Gweinyddiaeth Fasnach gwlad G wedi'i phennu o dan yr haen uwch, gyda phob gweithgaredd yn ffurfio "gweithgareddau perthnasol". Mae menter ar y cyd wedi'i sefydlu rhwng cwmni yn y DU a chwmni yng ngwlad G. Yna mae'r fenter ar y cyd yn llofnodi contract gyda Gweinyddiaeth Fasnach gwlad G ac yn cytuno i gynnal arolwg sy'n cynnwys ymatebwyr yn y DU.

Mae'n ofynnol i'r fenter ar y cyd gofrestru. Maent mewn trefniant gyda Gweinyddiaeth Fasnach gwlad G (**pŵer tramor penodedig**) sy'n cynnwys contract (**cyfarwyddyd**) i gynnal arolwg yn y DU (**gweithgareddau perthnasol**). Nid oes unrhyw esemptiadau'n berthnasol.

**Enghraifft 21 (nid oes angen cofrestru) (haen uwch)**

Mae Llywodraeth gwlad H wedi'i phennu o dan yr haen uwch. Mae cwmni o'r DU yn ffurfio menter ar y cyd â chwmni o wlad H, y mae ei brif weithgareddau yn cynnwys gwerthu alcohol. Fel rhan o'r fenter ar y cyd, mae'r cwmni o'r DU yn gwerthu'r alcohol i ddefnyddwyr yn y DU.

Er bod Llywodraeth gwlad H wedi'i phennu o dan yr haen uwch, nid yw'r llywodraeth honno'n cyfarwyddo'r naill barti na'r llall o'r fenter ar y cyd i gynnal gweithgareddau yn y DU. Felly nid oes angen cofrestru.

## Mentrau sy'n eiddo i'r wladwriaeth (y ddwy haen)

45. Nid yw perchnogaeth, cyllid na dull arall o reoli gan bŵer tramor ynddo'i hun yn sbarduno gofyniad cofrestru ar gyfer menter sy'n eiddo i'r wladwriaeth, ac nid yw'n gwneud menter sy'n eiddo i'r wladwriaeth yn bŵer tramor. Dim ond os yw'n cyflawni swyddogaethau o natur gyhoeddus (er enghraifft, cyhoeddi pasbortau neu weithredu carchardai) y byddai endid yn cael ei ystyried yn bŵer tramor, ond nid swyddogaethau sy'n bennaf fasnachol (er enghraifft, gwerthu nwyddau neu wasanaethau).

46. Dim ond os yw'n cael ei gyfarwyddo gan bŵer tramor i gynnal, neu drefnu, gweithgareddau dylanwad gwleidyddol yn y DU y byddai'n ofynnol i fenter sy'n eiddo i'r wladwriaeth gofrestru o dan yr haen ddylanwad gwleidyddol.

47. Byddai'n ofynnol i fenter sy'n eiddo i'r wladwriaeth gofrestru o dan yr haen uwch dim ond os naill ai:

- Mae ef ei hun yn endid penodedig a reolir gan bŵer tramor ac yn cynnal gweithgareddau perthnasol yn y DU neu
- Mae'n cael ei gyfarwyddo gan bŵer tramor penodedig neu endid penodedig a reolir gan bŵer tramor i gynnal gweithgareddau perthnasol yn y DU.

48. Pan fydd menter sy'n eiddo i'r wladwriaeth yn cynnal gweithgareddau y mae'n penderfynu arnynt ei hun, heb gyfarwyddyd gan bŵer tramor, nid oes angen cofrestru.

**Enghraifft 22 (angen cofrestru) (haen dylanwad gwleidyddol)**

Mae menter sy'n eiddo i'r wladwriaeth o wlad I yn cyfarfod â Gweinidog Masnach gwlad I, sy'n cyfarwyddo'r fenter i ddefnyddio cysylltiadau o fewn Llywodraeth y DU i gyflwyno'r achos dros ymweliad gwladol â'r DU ar gyfer Arlywydd gwlad I. Mae'r Gweinidog Masnach yn cynnig symiau sylweddol o gyllid i'r fenter os ydynt yn llwyddo i argyhoeddi Llywodraeth y DU i gytuno i'r ymweliad gwladol. Yna mae Prif Swyddog Gweithredol y fenter sy'n eiddo i'r wladwriaeth yn anfon llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet yn amlinellu'r manteision y byddai ymweliad gwladol yn eu dwyn.

**Mae'n ofynnol i'r fenter sy'n eiddo i'r wladwriaeth gofrestru**. Maent mewn trefniant gyda Gweinidog Masnach gwlad I (**pŵer tramor**) lle cânt eu cyfarwyddo – gyda'r cynnig o gyllid sylweddol ar ôl cydymffurfio (**cyfarwyddyd**) – i wneud cyfathrebiad i Lywodraeth y DU i ddylanwadu ar benderfyniad i alluogi ymweliad gwladol ar gyfer Arlywydd gwlad I â'r DU (**gweithgareddau dylanwad gwleidyddol**).

**Enghraifft 23 (angen cofrestru) (haen uwch)**

Mae Llywodraeth gwlad J wedi'i nodi o dan yr haen uwch, gyda phob gweithgaredd yn ffurfio "gweithgareddau perthnasol". Mae deddfau gwlad J yn ei gwneud yn ofynnol i bob menter sy'n eiddo i'r wladwriaeth yn y wlad gydymffurfio â cheisiadau a wneir gan y Llywodraeth ac mae sawl uwch reolwr mentrau sy'n eiddo i'r wladwriaeth wedi cael eu cosbi ar ôl siarad yn erbyn llywodraeth y wlad. Mae gwas sifil yn eistedd ar fwrdd menter sy'n eiddo i'r wladwriaeth ac yn cyfarwyddo uned gyfathrebu'r fenter i rannu postiadau cyfryngau cymdeithasol y llywodraeth sy'n gwrthbrofi honiadau bod y llywodraeth yn ceisio ymyrryd mewn etholiad sydd ar ddod yn y DU. Mae'r uned gyfathrebu yn cydymffurfio â chyfarwyddyd y gwas sifil a chaiff y negeseuon eu rhannu ar gyfryngau cymdeithasol sydd wedi'u bwriadu ar gyfer cynulleidfa yn y DU.

Mae'n ofynnol i'r fenter sy'n eiddo i'r wladwriaeth gofrestru. Maent mewn trefniant gyda gwas sifil gwlad J (**pŵer tramor**) lle cânt eu cyfarwyddo - gyda chanlyniadau posibl i reolwyr y cwmni os na fyddant yn cydymffurfio (**cyfarwyddyd**) - i rannu negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol ar gyfer llywodraeth gwlad J (**gweithgareddau perthnasol**).

**Enghraifft 24 (nid oes angen cofrestru o dan y naill haen na'r llall)**

Mae menter sy'n eiddo i'r wladwriaeth yn eiddo 100% i lywodraeth gwlad K, ac yn derbyn cyllid ar gyfer buddsoddiadau ganddi. Mae uwch reolwr o'r fenter, gan weithredu heb gyfarwyddyd gan y wladwriaeth, yn mynychu cynhadledd yn y DU ac yn siarad â Gweinidog Diogelwch Ynni a Sero Net y DU gyda'r nod o ddenu cyllid gan Lywodraeth y DU i gefnogi ei buddsoddiad mewn gorsaf bŵer niwclear.

Er bod y fenter yn eiddo i lywodraeth gwlad K ac yn derbyn cyllid ganddi, mae rheolwr y fenter yn gweithredu heb gyfarwyddyd gan y llywodraeth. Felly nid oes angen cofrestru, hyd yn oed pe bai llywodraeth gwlad K wedi'i phennu o dan yr haen uwch.

## Partnerships with state-owned enterprises (both tiers)

49. Nid oes rhaid i'r rhai sy'n cael eu cyfarwyddo gan fentrau sy'n eiddo i'r wladwriaeth i gynnal gweithgareddau dylanwad gwleidyddol yn y DU gofrestru. O dan yr haen dylanwad gwleidyddol, dim ond pe baent yn cael eu cyfarwyddo i wneud hynny gan **bŵer tramor** y byddai'n rhaid iddynt gofrestru.

50. Lle mae pŵer tramor wedi'i bennu o dan yr haen uwch, nid yw hynny'n golygu bod pob endid sy'n cael ei reoli gan y pŵer tramor hwnnw hefyd wedi'i bennu. Dim ond os cânt eu henwi mewn rheoliadau fel endid penodedig a reolir gan bŵer tramor y byddai'r endidau hyn yn cael eu hystyried yn benodedig. Felly, dim ond os yw'r endidau eu hunain wedi'u pennu y byddai'n rhaid i'r rhai sy'n cynnal gweithgareddau perthnasol yn y DU ar gyfarwyddyd endidau a reolir gan bŵer tramor gofrestru.

51. Lle mae gan rywun reswm i gredu eu bod yn gweithredu yn unol â threfniant cofrestradwy (er enghraifft, trefniant rhwng pŵer tramor a menter sy'n eiddo i'r wladwriaeth), yna dylent wirio bod y trefniant wedi'i gofrestru. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, ni fyddai gan y rhai sy'n cynnal gweithgareddau sydd o natur fasnachol yn unig unrhyw reswm i wybod eu bod yn gweithredu yn unol â threfniant cofrestradwy. Gweler yr haen dylanwad gwleidyddol am ragor o fanylion.

**Enghraifft 25 (nid oes angen cofrestru o dan y naill haen na'r llall)**

Mae llywodraeth gwlad L yn berchen ar gyfran o'r cyfranddaliadau ac mae ganddi hawliau pleidleisio o fewn menter sy'n eiddo i'r wladwriaeth yn y wlad, fodd bynnag, mae gweithgareddau dyddiol y fenter yn cael eu hunangyfarwyddo. Mae'r fenter sy'n eiddo i'r wladwriaeth yn ymrwymo i gontract gyda chwmni cysylltiadau cyhoeddus, sy'n cytuno i lobïo gweinidogion y llywodraeth ar ran y fenter i geisio cyfleoedd buddsoddi mwy agored yn y DU. Mae'r cwmni cysylltiadau cyhoeddus yn ysgrifennu at y Gweinidog Busnes a Masnach yn amlinellu'r manteision y gallai'r fenter sy'n eiddo i'r wladwriaeth eu dwyn i seilwaith y DU.

Nid oes angen i'r cwmni cysylltiadau cyhoeddus na'r fenter sy'n eiddo i'r wladwriaeth gofrestru. Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed os yw llywodraeth gwlad L wedi'i phennu o dan yr haen uwch. Mae hyn oherwydd:

- Nid yw'r fenter sy'n eiddo i'r wladwriaeth yn cael ei chyfarwyddo gan bŵer tramor gan fod eu gweithgareddau dyddiol yn cael eu hunangyfarwyddo.
- Nid yw'r fenter sy'n eiddo i'r wladwriaeth yn bŵer tramor felly nid yw'r cwmni cysylltiadau cyhoeddus mewn trefniant â phŵer tramor.
- Nid yw'r fenter sy'n eiddo i'r wladwriaeth wedi'i phennu o dan yr haen uwch.

## Trefniadau ecwiti preifat a chyfalaf menter (haen uwch)

52. Dim ond pan fyddant mewn trefniant gyda phŵer tramor penodedig, neu endid penodedig a reolir gan bŵer tramor, a'u bod yn cael eu cyfarwyddo ganddynt i gynnal neu drefnu "gweithgareddau perthnasol" yn y DU y byddai'n ofynnol i gwmnïau ecwiti preifat a chyfalaf menter y DU gofrestru o dan yr haen uwch.

53. Ni ystyrir yn awtomatig fod cronfeydd cyfoeth sofran, buddsoddwyr sofran a chronfeydd pensiwn cyhoeddus sy'n eiddo i bŵer tramor penodedig neu sy'n cael eu rheoli ganddo yn benodedig oherwydd y berchnogaeth neu'r rheolaeth hon. Felly, dim ond pan fyddant mewn trefniant perthnasol gyda phŵer tramor neu endid sydd wedi'i bennu eu hunain o dan yr haen uwch y byddai'n ofynnol i gwmni ecwiti preifat y DU gofrestru.

54. Pan fo gan gwmni ecwiti preifat neu gyfalaf menter y DU reswm i gredu eu bod yn gweithredu yn unol â threfniant cofrestradwy rhwng pŵer tramor a chorff buddsoddi,

dylent wirio bod y trefniant wedi'i gofrestru cyn cynnal unrhyw weithgareddau. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, os yw'r gweithgareddau'n gysylltiedig â buddsoddi yn unig, ni fyddai ganddynt unrhyw reswm i wybod eu bod yn gweithredu yn unol â threfniant cofrestradwy. Gweler yr haen dylanwad gwleidyddol am ragor o fanylion.

**Enghraifft 26 (nid oes angen cofrestru)**

Mae Gweinyddiaeth Fasnach gwlad M wedi'i phennu ar yr haen uwch. Mae cronfa gyfoeth sofran yn eiddo i'r Weinyddiaeth, er bod ei gweithrediadau o ddydd i ddydd yn annibynnol a bod ei gweithrediadau'n ymwneud â gwneud a rheoli buddsoddiadau o gronfeydd y Llywodraeth dramor yn unig. Mae'r gronfa gyfoeth sofran yn ffurfio trefniant gyda chwmni ecwiti preifat yn y DU, yn buddsoddi arian yn ei raglenni cronfa breifat, y mae'r cwmni ecwiti preifat wedyn yn eu buddsoddi mewn nifer o gwmnïau eraill yn unol â strategaeth fuddsoddi'r rhaglen. Mae cytundeb llythyr ochrol ar waith rhwng y cwmni ecwiti preifat a'r gronfa gyfoeth sofran, sy'n nodi y dylai'r cwmni ecwiti preifat flaenoriaethu buddsoddiadau y disgwylir iddynt ddarparu'r enillion mwyaf o fewn y 5 mlynedd nesaf (yn hytrach na chyfnod hirach neu fyrrach).

**Nid** oes angen i'r cwmni ecwiti preifat yn y DU gofrestru, gan nad ydynt mewn trefniant gyda phŵer tramor penodedig neu endid penodedig a reolir gan bŵer tramor. Er bod y gronfa gyfoeth sofran yn eiddo i bŵer tramor penodedig, nid ydynt eu hunain wedi'u rhestru fel endid penodedig a reolir gan bŵer tramor. Nid oes unrhyw reswm chwaith i'r cwmni ecwiti preifat wybod eu bod yn gweithredu yn unol â threfniant cofrestradwy rhwng y Weinyddiaeth Fasnach a'r gronfa cyfoeth sofran, gan fod y gweithgareddau'n gysylltiedig â buddsoddiadau'n unig, yn hytrach na nodau strategol eraill y pŵer tramor.

## Gweithgareddau lobïo a gynhelir drwy gymdeithasau masnach (haen dylanwad gwleidyddol)

55. Pan fo sefydliad mewn trefniant gyda phŵer tramor ac yn cael ei gyfarwyddo i gynnal gweithgareddau dylanwad gwleidyddol, mae'n ofynnol i'r sefydliad hwnnw gofrestru, waeth beth a ydynt yn cynnal y gweithgareddau ar eu pen eu hunain, neu drwy gymdeithasau masnach.

56. Dylai cymdeithasau masnach sy'n gweithredu yn unol â threfniant cofrestradwy rhwng sefydliad a phŵer tramor wirio bod y sefydliad wedi cofrestru'r trefniant cyn cynnal y gweithgareddau. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau lle nad oes ganddynt unrhyw fodd o wybod bod trefniant cofrestradwy ar waith, ni fyddai unrhyw drosedd yn cael ei chyflawni.

57. Dim ond pe baent yn cael eu cyfarwyddo gan bŵer tramor i gynnal neu drefnu gweithgareddau dylanwad gwleidyddol yn y DU y byddai'n ofynnol i gymdeithasau masnach gofrestru eu hunain. Ni fyddai'n ofynnol iddynt gofrestru lle, er enghraifft, maent yn cynnal gweithgareddau dylanwad gwleidyddol ar gyfarwyddyd cyffredinol

eu haelodaeth, neu lle maent yn hwyluso rhannu gwybodaeth rhwng eu haelodau a Llywodraeth y DU (neu lywodraethau gwledydd eraill).

**Enghraifft 27 (angen cofrestru):** Mae banc sy'n eiddo i'r wladwriaeth o wlad M mewn trefniant gyda'r Weinyddiaeth Masnach a Buddsoddi yng ngwlad M. O dan y trefniant hwn, mae'r Weinyddiaeth Diogelwch Ariannol yn cyfarwyddo'r banc i lobïo Llywodraeth y DU i lacio'r rheoliadau ar fuddsoddiad mewnol i'r DU. Mae'r banc yn ymuno â digwyddiad a drefnir gan gymdeithas fasnach ac, ynghyd â chyflogeion ac aelodau eraill o'r gymdeithas fasnach, yn siarad ag uwch weision sifil y DU gan amlinellu pam mae'r rheoliad wedi dyddio ac angen ei adolygu.

Mae'n ofynnol i'r banc sy'n eiddo i'r wladwriaeth gofrestru, gan eu bod mewn trefniant gyda'r Weinyddiaeth Masnach a Buddsoddi yng ngwlad M (**pŵer tramor**) lle cânt eu cyfarwyddo i lobïo Llywodraeth y DU i lacio'r rheoliadau ar fuddsoddiad mewnol (**gweithgareddau dylanwad gwleidyddol**).

Nid yw'r cyflogeion ac aelodau eraill o'r gymdeithas fasnach yn cael eu heffeithio gan unrhyw ofynion o dan FIRS, ar yr amod nad ydynt yn ymwybodol bod pŵer tramor wedi cyfarwyddo'r gweithgareddau lobïo. Pe bai ganddynt wybodaeth bod y banc yn gweithredu ar gyfarwyddyd pŵer tramor, yna byddai'n ofynnol iddynt wirio bod y banc wedi cofrestru'r trefniant.

## Cymdeithasau masnach a chyrff diwydiant sydd â chwmnïau o wledydd haen uwch yn eu haelodaeth (haen uwch)

58. Ni fydd gofyn i gymdeithasau masnach a chyrff diwydiant sy'n gweithredu yn ôl cyfarwyddyd cyffredinol eu haelodaeth gofrestru. O dan yr haen uwch, dim ond os byddent yn gweithredu yn ôl cyfarwyddyd penodol pŵer tramor penodedig neu endid penodedig a reolir gan bŵer tramor y byddai'n ofynnol iddynt gofrestru.

59. Byddai angen cofrestru pe bai ganddynt endid a reolir gan bŵer tramor a oedd wedi'i bennu o dan yr haen uwch fel rhan o'u haelodaeth, a'u bod yn gweithredu yn ôl cyfarwyddyd penodol yr aelod hwn.

60. Ni fyddai angen cofrestru pe byddent yn gweithredu yn ôl cyfarwyddyd cwmni preifat neu gwmni sy'n eiddo i'r wladwriaeth o wlad y mae ei llywodraeth wedi'i phennu, ar yr amod nad oedd y cwmni hwnnw eu hunain wedi'i bennu o dan yr haen uwch.

**Enghraifft 28a (angen cofrestru) (cyfarwyddyd gan endid penodedig a reolir gan bŵer tramor):** Mae gan gorff masnach fenter sy'n eiddo i'r wladwriaeth o wlad M sydd wedi'i phennu o dan yr haen uwch fel rhan o'i aelodaeth. Mae'r fenter yn gofyn am gymorth penodol gan y corff masnach i ddenu talent o bob cwr o'r diwydiant i gefnogi'r fenter mewn menter fusnes, ac yn talu'r corff masnach am ei gymorth. Mae'r corff masnach yn cysylltu â nifer o arbenigwyr yn y diwydiant a allai fod â diddordeb yn y cyfle.

Mae'n ofynnol i'r **corff masnach** gofrestru. Maent mewn trefniant gyda menter benodedig a berchenogir gan y wladwriaeth (**endid penodedig a reolir gan bŵer tramor**) sy'n eu talu (cyfarwyddyd) i hyrwyddo cyfle i gefnogi'r fenter mewn menter fusnes (gweithgareddau perthnasol).

**Enghraifft 28b (nid oes angen cofrestru) (dim trefniant gyda phŵer neu endid tramor penodedig):**

Mae gan gorff masnach gwmni o wlad M fel rhan o'i aelodaeth. Mae llywodraeth gwlad M wedi'i phennu o dan yr haen uwch, fodd bynnag, mae'r cwmni'n endid masnachol annibynnol. Mae'r cwmni'n gofyn am gymorth penodol gan y corff masnach i farchnata ei wasanaethau i gynulleidfa yn y DU ac yn talu'r corff masnach am ei gymorth. Mae'r corff masnach yn cysylltu â nifer o gwmnïau a fyddai'n elwa o wasanaethau'r cwmni.

**Nid** oes angen i'r corff masnach gofrestru, gan nad ydynt mewn trefniant gyda phŵer tramor penodedig neu endid penodedig a reolir gan bŵer tramor. Er bod llywodraeth gwlad M wedi'i phennu, nid yw'r cwmni'n rhan o'r llywodraeth.

# Adran 5: Y gofrestr gyhoeddus ac eithriadau i gyhoeddi

61. Bydd gwybodaeth benodol a gofrestrir sy'n ymwneud â threfniadau i gynnal gweithgareddau dylanwad gwleidyddol yn cael ei chynnwys ar gofrestr gyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys trefniadau a gofrestrir o dan yr haen dylanwad gwleidyddol, yn ogystal ag unrhyw drefniadau a gofrestrir o dan yr haen uwch sy'n ymwneud â chynnal gweithgareddau dylanwad gwleidyddol. Ni fydd cofrestriadau eraill o dan yr haen uwch yn cael eu cyhoeddi.

62. Ni chyhoeddir yr holl wybodaeth a ddarperir wrth gofrestru. Gweler y canllawiau ar y wybodaeth sy'n ofynnol wrth gofrestru a'r gofrestr gyhoeddus am ragor o fanylion.

63. Mae eithriadau i gyhoeddi yn berthnasol yn y senarios canlynol:
    - Lle mae risg y byddai cyhoeddi yn niweidio diogelwch neu fuddiannau'r DU.
    - Lle mae risg y byddai cyhoeddi yn niweidio atal neu ganfod troseddau, ymchwiliad troseddol neu achosion troseddol;
    - Lle mae risg sylweddol y byddai cyhoeddi yn peryglu diogelwch unrhyw unigolyn yn ddifrifol.
    - Lle byddai cyhoeddi yn golygu datgelu gwybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol.

64. Gall eithriadau i gyhoeddi fod yn berthnasol i gofrestriad cyfan (sy'n golygu nad oes unrhyw fanylion yn cael eu cyhoeddi) neu i wybodaeth benodol yn unig o fewn cofrestriad (sy'n golygu bod y gofrestriad yn cael ei gyhoeddi ond gyda'r wybodaeth honno wedi'i golygu).

65. Bydd cofrestreion sy'n credu bod eithriad i gyhoeddi yn berthnasol yn cael cyfle i ddarparu tystiolaeth i arddangos bod yr eithriad yn berthnasol fel rhan o'r broses gofrestru.

66. Yr eithriad sydd fwyaf tebygol o fod yn berthnasol i'r sectorau busnes yw'r eithriad lle byddai cyhoeddi yn cynnwys datgelu gwybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol. Gellir dod o hyd i fanylion pellach am yr eithriadau eraill i gyhoeddi yn y canllawiau ar y wybodaeth sy'n ofynnol wrth gofrestru a'r gofrestr gyhoeddus.

## Gwybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol

67. Dylai busnesau sy'n credu bod yr eithriad ar gyfer gwybodaeth sensitif yn fasnachol yn berthnasol ddarparu tystiolaeth wrth gyflwyno eu cofrestriad i arddangos:
    - Mae gwybodaeth a fyddai’n cael ei chyhoeddi yn gyfrinachol; a
    - Mae’n debygol iawn y bydd ei chyhoeddi’n niweidio buddiannau masnachol unrhyw unigolyn neu endid o ddifrif.

68. Ystyrir bod gwybodaeth yn gyfrinachol os:
- Nid yw'n hysbys yn gyffredinol i unigolion allanol i'ch sefydliad, nac ar gael iddynt, oni bai bod angen iddynt gael mynediad at y wybodaeth i gyflawni eu rolau (fel y gall fod yn wir gyda rhai contractwyr, cyflenwyr neu bartneriaid busnes); a
- Mae'n destun mesurau i'w hatal rhag cael ei datgelu y tu allan i'r cylchoedd caeedig hyn (er enghraifft, cyfyngiadau mynediad yn yr ardal lle mae'r wybodaeth yn cael ei storio; neu gytundebau contractiol sy'n gwahardd datgelu'r wybodaeth).

69. Er mwyn i'r eithriad hwn fod yn gymwys, rhaid bod cysylltiad clir rhwng cyhoeddi a niwed i fuddiannau masnachol. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, lle mae manylion penodol a fyddai'n cael eu cyhoeddi a fyddai'n fanteisiol iawn i gystadleuydd.

70. Er y bydd y dystiolaeth sy'n dderbyniol i arddangos eithriad yn amrywio ym mhob achos, gellid darparu'r mathau canlynol o dystiolaeth (os yw'n briodol ac yn berthnasol):
    - Copïau o Gytundebau Dim Datgelu neu fanylion rhwymedigaethau contractiol,
    - Ceisiadau patent neu ddogfennau diogelu eiddo deallusol eraill,
    - Asesiadau arbenigol o werth masnachol y wybodaeth.

71. Mae enghreifftiau o fathau o wybodaeth y gellid ystyried eu bod yn sensitif yn fasnachol yn cynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i:
- Uno a chaffael sydd ar y gweill;
- Cyfrinachau masnach, patentau ac eiddo deallusol arall;
- Dyfeisiadau, technolegau neu ganfyddiadau ymchwil newydd;
- Prosesau, gweithdrefnau neu dechnegau manwl a ddefnyddir gan gwmni (er enghraifft, prosesau gweithgynhyrchu manwl);
- Ryseitiau neu fformwlâu (sy'n gyffredin yn y diwydiannau bwyd, fferyllol a cholur);
- Cynlluniau ar gyfer datblygu cynhyrchion yn y dyfodol.

72. Gall rhai mathau o wybodaeth am gostau fodloni'r trothwy ar gyfer bodloni'r maen prawf hwn, er enghraifft gwariant cyfalaf a threuliau gweithredu, ond dim ond lle gellir rhoi esboniad clir ynghylch sut y byddai'n niweidio buddiannau masnachol o ddifrif. Mae'r un peth yn wir am fathau eraill o ddata a gedwir gan gwmni, megis gwybodaeth am brisiau, rhestrau cyflenwyr a gwybodaeth am gleientiaid.

73. Gallai gwybodaeth sy'n ymwneud ag ymarferion caffael (er enghraifft, cynigion tendr) mewn rhai amgylchiadau fodloni'r meini prawf i'r eithriad fod yn berthnasol. Er enghraifft, gallai gwybodaeth a ddarperir yn gyfrinachol gan gwmni fel rhan o gynnig tendr niweidio eu buddiannau masnachol pe bai'n cael ei chyhoeddi oherwydd gallai roi mantais i gystadleuwyr wrth wneud cynnig tebyg.

74. Yn yr un modd, gellid ystyried bod gwybodaeth, yn benodol, yn sensitif yn fasnachol yn y cyfnod cyn llofnodi contract ffurfiol. Fodd bynnag, mae angen tystiolaeth o hyd i ddangos y canlyniadau posibl o'i chyhoeddi; er enghraifft, y potensial i gystadleuwyr fanteisio ar y ffaith eu bod yn gwybod bod contract yn cael ei lofnodi.

75. Nid yw risg o niwed i enw da yn digwydd o ganlyniad i gyhoeddi, ynddo'i hun, yn golygu bod yr eithriad i gyhoeddi yn berthnasol. Byddai angen darparu tystiolaeth ynghylch sut y byddai cyhoeddi’n achosi’r niwed i enw da a sut y byddai’n niweidio buddiannau masnachol y cwmni’n ddifrifol.

# Adran 6: Ar bwy y mae'r gofynion cofrestru yn disgyn a chyfrifoldebau cyflogeion ac isgontractwyr sy'n cyflawni gweithgareddau

76. Lle bodlonir yr amodau ar gyfer cofrestru o dan y naill haen neu'r llall o FIRS, yr unigolyn neu'r sefydliad sydd yn y trefniant gyda'r pŵer tramor (haen dylanwad gwleidyddol) neu bŵer neu endid tramor penodedig (haen uwch) y mae'n ofynnol iddo gofrestru (y cyfeirir ato fel "P" yn y ddeddfwriaeth).

77. Felly, lle mae sefydliad yn ffurfio trefniant cofrestradwy gyda phŵer tramor, y sefydliad sydd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol i gofrestru.

78. Nid oes rhaid i gyflogeion ac isgontractwyr y sefydliad neu eraill sy'n cyflawni gweithgareddau yn unol â'r trefniant cofrestradwy gofrestru, ond dylent wirio bod y trefniant wedi'i gofrestru cyn cyflawni eu gweithgareddau. Gellir gwneud hyn trwy ofyn am gadarnhad o'r cofrestriad gan y cofrestrai y gellir ei wirio wedyn gyda'r tîm rheoli achosion.

79. Mae mesurau diogelwch yn y ddeddfwriaeth i amddiffyn gweithwyr neu isgontractwyr, lle nad oes ganddynt unrhyw ffordd o wybod eu bod yn gweithredu yn unol â threfniant cofrestradwy, er enghraifft:
    - Mae eu gweithgareddau o natur fasnachol yn unig, heb unrhyw wybodaeth i awgrymu eu bod wedi cael eu cyfarwyddo gan bŵer neu endid tramor penodedig;
    - Maent yn gwybod bod yr endid y maent yn gweithio gydag ef yn eiddo i'r wladwriaeth, yn cael ei reoli gan y wladwriaeth neu wedi'i gysylltu'n agos â'r wladwriaeth fel arall, ond nid oes ganddynt unrhyw reswm i wybod bod y wladwriaeth wedi cyfarwyddo'r gweithgareddau y maent yn eu cyflawni mewn gwirionedd;
    - Nid amcanion strategol na gwleidyddol y wladwriaeth yw'r amcanion y maent yn ceisio'u cyflawni trwy eu gweithgareddau, ond yn hytrach amcanion masnachol yr endid y maent yn gweithio gydag ef, ac nid oes ganddynt unrhyw wybodaeth i awgrymu bod y wladwriaeth wedi cyfarwyddo'r gweithgareddau hyn.

80. Mae yna fesurau diogelu tebyg hefyd lle mae'r person wedi cymryd pob cam rhesymol sydd ar gael iddo i wirio a yw'r trefniant wedi'i gofrestru ai peidio ac yn credu ei fod wedi'i gofrestru (gweler adran 67 o Ddeddf Diogelwch Cenedlaethol 2023).
81. Nid oes dyletswydd benodol ar unrhyw gyflogeion, isgontractwyr na phersonau eraill sy'n cynnal gweithgareddau i gynnal diwydrwydd dyladwy yn rhagweithiol i weld pwy

sy'n cyfarwyddo'r gweithgaredd. Y peth allweddol yw a oes ganddynt wybodaeth neu ffeithiau ar gael iddynt sy'n awgrymu y gallent fod yn gweithredu yn unol â threfniant cofrestradwy - ac os oes ganddynt wybodaeth neu ffeithiau o'r fath, yna dylent wirio ei fod wedi'i gofrestru.

**Astudiaeth achos 1 (haen dylanwad gwleidyddol):** Mae asiantaeth PR yn ffurfio trefniant gyda Llywodraeth gwlad X ac yn cytuno i lansio ymgyrch i geisio perswadio Llywodraeth y DU i ddarparu teithio di-fisa i'r DU i ddinasyddion gwlad X.

Mae'r asiantaeth PR yn nodi nifer o lobïwyr llawrydd sydd â chysylltiadau priodol yng ngwasanaeth sifil uwch y DU ac yn llofnodi cytundeb gyda phob un ohonynt, sy'n nodi cyd-destun ac amcanion yr ymgyrch. Yna mae'r lobïwyr hyn yn cyfathrebu ag uwch weision sifil i gyflwyno'r achos dros lacio'r gofynion fisa cyfredol.

Mae'n ofynnol i'r **asiantaeth PR** gofrestru gan eu bod yn y trefniant cofrestradwy gyda'r pŵer tramor.

Nid yw'n ofynnol i'r **lobïwyr llawrydd** gofrestru gan nad ydynt yn rhan uniongyrchol o'r trefniant cofrestradwy. Fodd bynnag, o ystyried eu bod yn ymwybodol o gyd-destun yr ymgyrch a bod yr amcanion yn amlwg yn hyrwyddo amcanion strategol pŵer tramor, dylent wybod yn rhesymol eu bod yn gweithredu yn unol â threfniant cofrestradwy. Felly, dylai'r lobïwyr llawrydd wirio bod yr asiantaeth PR wedi cofrestru'r trefniant.

**Astudiaeth achos 2 (haen uwch):** Mae hwylusydd cynadleddau yn y DU yn llofnodi contract gyda phŵer tramor penodedig ac yn cytuno i drefnu digwyddiad yn y DU.

Mae'r hwylusydd cynadleddau yn trefnu i gwmni arlwyo ddarparu lluniaeth yn y digwyddiad. Mae'r hwylusydd cynadleddau yn rhoi'r teitl, yr amseroedd a nifer y mynychwyr yn y digwyddiad i'r cwmni arlwyo, ond nid oes unrhyw arwydd bod y digwyddiad wedi'i gyfarwyddo gan bŵer tramor penodedig.

Mae'n ofynnol i'r **hwylusydd cynadleddau** gofrestru gan eu bod yn y trefniant cofrestradwy gyda'r pŵer tramor penodedig.

Nid oes angen i'r **cwmni arlwyo** gofrestru gan nad ydynt yn rhan uniongyrchol o'r trefniant cofrestradwy. Nid oes ganddynt unrhyw reswm chwaith i wybod bod y digwyddiad wedi'i gyfarwyddo gan bŵer tramor penodedig, felly nid oes angen iddynt gymryd unrhyw gamau i gydymffurfio â FIR.